WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Quay Café – **Cyngor Tref Cei Connah**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1112A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb yn gysylltiedig ag unrhyw swyddog, aelod neu unigolyn arall yn eu swyddogaeth unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Deryck Evans oedd y person a gyflawnodd y gwaith dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Tref Cei Connah.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Tref Cei Connah sydd wedi arwain at y Cyngor yn ysgwyddo diffyg ariannol o dros £234,000 ac mae'n cynnig argymhellion i fynd i'r afael â'r methiannau hynny. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Canfyddiadau manwl

Mae Cyngor Tref Cei Connah wedi ysgwyddo diffyg ariannol cronnus o dros £234,000 wrth weithredu'r Quay Café ers 2011, ac yn fy marn i, gweithredodd y Cyngor mewn modd anghyfreithlon pan benderfynodd agor y Café yn 2010 4

Cyflwyniad 4

Cyngor Tref Cei Connah 4

Fy ngwaith archwilio 5

Agorodd y Quay Café yn 2010 dan gytundeb les 20 mlynedd yn dilyn ystyriaeth o gynllun busnes a baratowyd gan y cyn-glerc 5

Mae'r Café wedi ysgwyddo colledion gweithredu gwerth dros £234,000 ers iddo agor yn 2010 ac mae taliadau praesept wedi cynyddu bob blwyddyn i ateb y colledion hyn 6

Pan agorwyd y Café, nid oedd gan y Cyngor yr awdurdod statudol i'w weithredu ac nid oedd cynllun busnes clir a chydlynol i gefnogi'r penderfyniad, felly roedd penderfyniad, yn fy marn i, yn anghyfreithlon 7

Mae angen o hyd i'r Cyngor ystyried diben y Café a'r swyddogaeth statudol y mae'n ei chyflawni wrth weithredu'r Café, ac mae angen dadansoddiad ariannol llawn i gefnogi unrhyw benderfyniadau 9

Argymhellion 10

Y camau nesaf 10

# Canfyddiadau manwl

## Mae Cyngor Tref Cei Connah wedi ysgwyddo diffyg ariannol cronnus o dros £234,000 wrth weithredu'r Quay Café ers 2011, ac yn fy marn i, gweithredodd y Cyngor mewn modd anghyfreithlon pan benderfynodd agor y Café yn 2010

### Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o fy archwiliad o gyfrifon Cyngor Tref Cei Connah (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod fy archwiliad tynnwyd fy sylw at faterion yn ymwneud â gweithrediad y Quay Café. Wrth ystyried y materion hyn, nodais fethiannau sylweddol yn y trefniadau gwneud penderfyniadau a diffygion o ran y rheolaeth ariannol a'r rheolaeth fewnol.

2 Cyflwynir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffyg ariannol a ysgwyddwyd gan y Cyngor a methiannau'r Cyngor wrth wneud penderfyniadau a diffygion o ran rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol. O ystyried maint y diffyg ariannol a ysgwyddwyd, rwyf i o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o berygl y bydd methiannau llywodraethu o'r fath yn codi eto. Mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Tref Cei Connah

4 Cei Connah yw'r dref fwyaf yn Sir y Fflint. Mae gan y Cyngor 20 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli pedair ward sef Cei Connah Canol, Golftyn, De a Wepre. Mae'n gwario tua £450,000 yn flynyddol ar wasanaethau lleol. Daw'r arian hwn yn bennaf o braesept o ryw £300,000 gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Cyngor yn codi incwm ychwanegol o werthiannau a thaliadau llogi ei amryw gyfleusterau. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept drwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o'r pwrs cyhoeddus a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Mae'r Cyngor felly yn atebol i'r etholwyr lleol.

5 Mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o gyfleusterau cyhoeddus gan gynnwys:

- Y Neuadd Ddinesig
- Swyddfeydd cyngor y dref
- Canolfan Gymunedol Tuscan Way

- Quay Café

## Fy ngwaith archwilio

6 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned a thref yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol wedi ei gwblhau gan y cynghorau a'i gyflwyno i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

7 Ym mis Ionawr 2018, mynegodd etholwr lleol bryderon ynglŷn â gweithrediad y Quay Café, yn benodol ynghylch y modd y'i sefydlwyd a'i sefyllfa ariannol. Felly, ehangais gwmpas fy ngwaith archwilio i arolygu sefyllfa ariannol y Quay Café.

## Agorodd y Quay Café yn 2010 dan gytundeb les 20 mlynedd yn dilyn ystyriaeth o gynllun busnes a baratowyd gan y cyn-glerc

8 Yn 2009, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'i anghenion ar y pryd o ran adeilad. Nododd yr adolygiad hwn fod angen adleoli i gyfleuster mwy cyfleus. Yn 2010, symudodd y Cyngor i'w swyddfa bresennol ar Ffordd y Fron, Cei Connah. Ar yr un pryd, agorodd y Cyngor y Quay Café mewn adeilad gerllaw'r swyddfa newydd ond heb fod yn cyd-ffinio â'r swyddfa honno. Mewn adroddiad i Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018, nodwyd bod y broses o adleoli'r swyddfa a'r broses o greu'r cyfleuster caffi wedi'u cynnal yn un prosiect. Roedd y caffi yn cynnwys offer arlwyo i ddarparu gwasanaethau arlwyo i ystafell gyfarfod/hyfforddi y Cyngor wedi'i lleoli yn Adeilad Quay. Mae aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r cyfleusterau hefyd i brynu bwyd a diod.

9 Mewn cynllun busnes a gyflwynwyd i'r Cyngor yn 2009, nododd y clerc ar y pryd fod adolygiad annibynnol gan Gymdeithas y Café wedi dynodi y byddai oddeutu 296 ymweliad â'r caffi pob dydd ar ôl tair blynedd. Gosodwyd targed o 250 o gwsmeriaid y dydd ar ôl tair blynedd i'r Café. Roedd y cynllun busnes hefyd yn nodi y byddai'r Café yn cynnig ystod eang o gynhyrchion ond am brisiau a fyddai'n adlewyrchu darpariaeth y caffi fel cyfleuster/gwasanaeth cymunedol ac felly mae'n rhaid i'r broses werthu adlewyrchu nad oes sail fasnachol i'r prisiau hyn.

10 Roedd y cynllun busnes yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad ategol ond ni roddwyd rhagor o wybodaeth i mi, gan gynnwys unrhyw ddadansoddiad gan Gymdeithas y Café. Mae fy adolygiad o bapurau'r Cyngor yn nodi na chafodd y Cyngor ragor o wybodaeth ac eithrio honno oedd yn y cynllun busnes cyn iddo wneud ei benderfyniad.

11 Mae'r Cyngor yn dal les 20 mlynedd ar safle'r Café, a fydd yn dod i ben yn 2030.

## Mae'r Café wedi ysgwyddo colledion gweithredu gwerth dros £234,000 ers iddo agor yn 2010 ac mae taliadau praesept wedi cynyddu bob blwyddyn i ateb y colledion hyn


12 Paratôdd y cyn-glerc gynllun busnes ar gyfer y Quay Café ym mis Chwefror 2009. Mae'r cynllun busnes yn cyfeirio at anghenion adeilad y Cyngor ond nid yw'n nodi'n glir beth yw'r anghenion hynny na sut y byddai'r cynigion yn y cynllun busnes yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Mae'n cyfeirio at gynllun ariannol, sy'n nodi dewisiadau amrywiol sydd eto i'w harchwilio a data dadansoddi'r farchnad, ac sy'n rhagfynegi gwarged blynyddol o dros £22,000 o ail flwyddyn gweithrediad y Café ymlaen.

13 Ers iddo agor yn 2010 hyd at 31 Mawrth 2018, mae'r Quay Café wedi ysgwyddo diffyg ariannol cronnus o dros £213,000. Cafwyd diffyg ariannol ym mhob blwyddyn y mae'r café wedi bod ar agor. Yn y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Hydref 2018, ysgwyddodd y café ddiffyg ariannol arall o dros £21,000.

14 Mae Arddangosyn 1 isod yn dangos bod gwariant blynyddol yn fwy nag incwm.

Arddangosyn 1: incwm a gwariant blynyddol i'r Quay Café

Mae gwariant y Quay Café wedi bod yn fwy na'i incwm bob blwyddyn ers iddo agor yn 2010.



15 Er mwyn mantoli ei gyllid a gwneud iawn am y colledion hyn, mae'r Cyngor wedi gosod praesept uwch nag y byddai angen iddo'i osod fel arall. Canlyniad hyn yw taliadau treth gyngor uwch i drigolion Cei Connah.

16 £11,000 oedd y rhent blynyddol ar y dechrau a chaiff y rhent hwn ei adolygu bob tair blynedd. Mae'r rhent blynyddol ar hyn o bryd oddeutu £13,000. Mae data a ddarparwyd gan y Cyngor yn dangos bod y Café, heb gynnwys taliadau rhent y les, yn dal i fod wedi ysgwyddo diffyg masnachu mewn saith o'r wyth mlynedd hyd at ac yn cynnwys 2017-18.

## Pan agorwyd y Café, nid oedd gan y Cyngor yr awdurdod statudol i'w weithredu ac nid oedd cynllun busnes clir a chydlynol i gefnogi'r penderfyniad, felly roedd penderfyniad, yn fy marn i, yn anghyfreithlon

### Erbyn hyn, gall y Cyngor ddefnyddio ei bwerau llesiant i weithredu'r Quay Café, ond pan wnaeth ei benderfyniad i agor a gweithredu caffi, nid oedd ganddo'r awdurdod statudol i wneud hynny

17 Fel corff statudol, mae gan y Cyngor bwerau i weithredu'n unig yn ôl y pwerau a roddir iddo drwy statud. Ond mae ganddo fân bwerau eang. Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) yn caniatáu i'r Cyngor wario hyd at swm penodol mewn unrhyw flwyddyn fel a ragnodir gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru er budd uniongyrchol yr ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion. Rhoddodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) bŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n ystyried y bydd yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal.

18 Mae cyfyngiad ar y pwerau cyffredinol hyn fel na ellir eu defnyddio yn groes i unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar ddarpariaethau statudol penodol.

19 Os yw cyngor yn penderfynu dibynnu ar y pŵer cyffredinol a nodir yn adran 137 o Ddeddf 1972, mae'n rhaid iddo gadw cyfrif ar wahân o unrhyw wariant ac mae'n rhaid awdurdodi hynny'n benodol drwy benderfyniad.

20 Cyfrifoldeb y Cyngor yw dangos ei fod wedi gweithredu'n gyfreithlon.

21 Mae'r Cynllun Busnes yn cyfeirio at y Cyngor yn gweithredu'r Café fel 'cyfleuster/gwasanaeth cymunedol'. Nid yw'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried pa bwerau oedd ganddo i redeg y Café o 2010.

22 Ni ofynnodd y Cyngor am gyngor cyfreithiol ar ei bwerau statudol i weithredu'r Café tan fis Ebrill 2018, a hynny mewn ymateb i fy ymholiadau i. Roedd y cyngor hwn yn awgrymu nifer o bwerau posibl y gallai'r Cyngor ddibynnu arnynt. Fodd bynnag, mae'r cyngor a gafodd y Cyngor yn wallus yn ei hun oherwydd:

- ei fod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a ddiddymwyd cyn 2010;

- nid yw'n cydnabod y pŵer llesiant sydd wedi bod ar gael i'r Cyngor ers 2011; ac
- mae'n awgrymu bod gweithredu'r Café yn atodol i swyddogaethau eraill y Cyngor.

23 Ystyriaf y canlynol:

- yn 2010, byddai'r pŵer statudol gan y Cyngor i redeg y Café o dan adran 137 o Ddeddf 1972, pe byddai wedi ystyried p'un a fyddai'r gwariant wedi bod er budd yr ardal neu ei thrigolion;
- nid yw gweithrediad y Café yn atodol i swyddogaethau eraill y Cyngor gan ei fod yn cynrychioli cyfran sylweddol o weithgareddau ariannol cyffredinol y Cyngor a'i fod yn gweithredu ar wahân i weithgareddau eraill y Cyngor; ac
- ers 2011, byddai'r Cyngor wedi gallu gweithredu'r Quay Café trwy ddefnyddio ei bwerau llesiant.

24 Mewn gohebiaeth ysgrifenedig i mi, mae'r Cyngor wedi datgan pan oedd yn gwneud y penderfyniad i agor y caffi, ei fod wedi gwneud hynny yn ddidwyll ac nad oedd wedi bwriadu ymddwyn yn anghyfreithlon.

25 Er hyn, ac er ei fod yn gallu dibynnu ar ei bwerau llesiant o dan y Mesur erbyn hyn, yn fy marn i nid oedd y Cyngor yn gallu dibynnu ar unrhyw bŵer statudol i agor y Café yn 2010 ac felly roedd ei benderfyniad gwreiddiol, yn fy marn i, yn anghyfreithlon.

## Roedd y Cynllun Busnes wedi'i baratoi'n wael ac nid oedd yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad gwybodus, ac felly fe wnaeth y Cyngor ymddwyn yn afresymol wrth ddibynnu ar y Cynllun Busnes

26 Wrth arfer unrhyw bwerau statudol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymddwyn yn rhesymol. Mae hyn yn golygu y dylai ystyried yr holl faterion sy'n berthnasol i'w benderfyniad ac na ddylai ystyried materion nad ydynt yn berthnasol. Wrth benderfynu ar brosiect ag effaith ariannol sylweddol, boed hynny'n bositif neu'n negyddol, dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo sail gadarn ar gyfer gwneud ei benderfyniad. Bydd y sail hon fel rheol wedi'i nodi mewn arfarniad opsiynau a chynllun busnes.

27 Byddai cynllun busnes a baratowyd yn dda yn cynnwys:

- Datganiad clir o ddiben y prosiect a'r swyddogaeth statudol sy'n cael ei harfer
- Arfarniad o unrhyw opsiynau o ran darparu
- Dadansoddiad ariannol trylwyr sy'n nodi'n glir y canlyniadau ariannol disgwyliedig
- Dadansoddiad risg a sensitifrwydd sy'n nodi risgiau posibl a'r canlyniadau ariannol

28 Mae cynllun busnes y cyn-glerc yn anghydlynol ac yn cynnwys nifer o wendidau:

- nid yw'n glir o'r cynllun beth yw diben gwirioneddol y ddogfen. Mae'r cynllun yn cyfeirio at anghenion y Cyngor o ran swyddfa a chostau adleoli ond ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng hyn a'r penderfyniad i agor y Quay Café.
- darperir gwybodaeth ariannol nad yw'n ymddangos ei bod yn berthnasol i'r Café.
- rhestrir opsiynau ar gyfer ad-dalu benthyciad o £505,000 gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac mae'r cynllun busnes yn nodi bod y rhain yn opsiynau y mae angen eu harchwilio oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Fodd bynnag, ni cheir asesiad pellach o'r opsiynau.
- darperir tystiolaeth gyfyng yn unig i gefnogi'r dadansoddiad ariannol sydd wedi ei gynnwys yn y cynllun busnes. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod yr haeriadau a wnaed ynghylch strwythurau prisio a nifer y cwsmeriaid a gyfrannodd at y dadansoddiad ariannol wedi'u dilysu mewn unrhyw fodd.
- ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i risg na dadansoddiad sensitifrwydd.

29 Gan fod y cynllun busnes yn cynnwys diffygion sylfaenol, ni ddylai'r Cyngor fod wedi dibynnu ar y cynllun wrth wneud penderfyniad i agor y Café.

## Mae angen o hyd i'r Cyngor ystyried diben y Café a'r swyddogaeth statudol y mae'n ei chyflawni wrth weithredu'r Café, ac mae angen dadansoddiad ariannol llawn i gefnogi unrhyw benderfyniadau

30 Yn dilyn ymholiadau archwilio yng ngwanwyn/haf 2018, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Cyngor gyfarfod arbennig ym mis Mehefin 2018. Yn y cyfarfod hwn, ystyriodd y pwyllgor adroddiad gan y Clerc presennol yn nodi opsiynau ar gyfer dyfodol y Café. Yn y cyfarfod hwn, argymhellodd y pwyllgor y dylid ailddatgan cylch gorchwyl y Café i ganolbwyntio ar agwedd gymunedol ei weithrediad a chaniatáu i sefydliadau a grwpiau logi'r caffi a galluogi'r Cyngor i ddarparu cyfleusterau arlwyo. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniad hwn heb fawr o wybodaeth am oblygiadau ariannol gweithredu'r Café.

31 Mae'r Clerc wedi bod yn gweithio ar ddadansoddiad ariannol llawn o'r Café a bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn deall canlyniadau ariannol ei benderfyniadau.

32 Deallaf fod y Clerc hefyd yn adolygu rheolau sefydlog y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor ofyn am gyngor cyfreithiol cyn darparu unrhyw wasanaethau newydd neu arloesol.

## Argymhellion

33 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol yn awr i fynd i'r afael â'r diffygion yr wyf wedi'u nodi yn yr archwiliad. Felly, rwyf wedi ystyried y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i fy nghasgliadau cychwynnol ac wedi cynnig tri argymhelliad i wella fel a nodir isod:


| Argymhellion | |
|---|---|
| **Arfarniad ariannol ac opsiynau** | |
| A1 | Cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch gweithrediad y Quay Café, dylai'r Cyngor gynnal arfarniad opsiynau llawn gan gynnwys arfarniad ariannol llawn o bob opsiwn. |
| **Arfer pwerau statudol** | |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi cael cyngor priodol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyn gwneud penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau newydd neu wahanol. |
| **Arfer pwerau statudol** | |
| A3 | Dylai'r Cyngor adolygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a sicrhau ei fod yn deall ar ba sail statudol y mae'n darparu'r gwasanaethau hynny. |

# Y camau nesaf

34 Mae'n ofynnol o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
- pha gamau i'w cymryd (os o gwbl) mewn i ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

35 Bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig wedyn a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

19 Mehefin 2019

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru